

'Gwyddoniaeth Amgueddfa'

CA3

Yn y sesiwn 1awr hon bydd disgyblion yn archwilio'r adweithiau cemegol sy'n digwydd mewn amgueddfeydd a sut a pham y byddwn ni'n ceisio eu hatal.

Mae taith yn cyd-fynd â'r sesiwn hon a gobeithiwn y byd y disgyblion yn ei defnyddio i atgyfnerthu a datblygu eu haddysg cyn neu wedi'r sesiwn.

Amcanion dysgu

Dylai'r disgyblion:

- Fod yn ymwybodol bod rhai sylweddau yn y cartref yn cynnwys asid a gwneud prawf addas am asid
- Deall y gall asid adweithio gyda gwrthrychau, gan achosi difrod
- Deall bod gan amgueddfeydd gyfrifoldeb i ofalu am eu gwrthrychau
- Adnabod ffyrdd eraill y gall gwrthrychau amgueddfa gael eu difrodi a deall bod rhai o'r rhain o ganlyniad i brosesau cemegol.

Cyswllt â'r cwricwlwm

Adweithiau cemegol

Asid ac Alkali

Cemeg yn y byd go iawn

Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Rhai awgrymiadau ar beth i'w drafod a'i wneud gyda'r dosbarth cyn ac wedi'r ymweliad.

Cyn ymweld

Cyn ymweld, byddai o fudd i chi siarad â'r dosbarth am amgueddfeydd, beth yw eu gwaith a beth sydd i'w weld yn yr amgueddfa hon, ac mewn amgueddfeydd ac orielau eraill maent wedi ymweld â nhw o'r blaen.



Rhai geiriau fydd yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Curadur, archaeoleg, daeareg, asid, alcali, adwaith

Wedi ymweld

Beth sy'n adweithio â HCl a pham? Archwiliwch i adweithiau Magnesiwm, Alwminiwm, Sinc a Chopr.

Amlinelliad Gweithdy

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser
Cyflwyniad	Adnabod rhai o'r deunyddiau yng nghasgliadau'r Amgueddfa a thrafod y peryglon posibl iddynt.	10 mun
Prawf Asid	Defnyddio papur litmws i brofi pa mor asidig yw nifer o sylweddau yn y cartref. Defnyddio sudd lemwn i brofi am adwaith â gwrthrychau o galsiwm carbonad.	10 mun
Arddangosiad	Gwyllo wrth i HCl adweithio â metel (sinc) ac wrth i cola adweithio ag enamel dannedd.	5 mun
Yw papur yn asidig?	Profi dau fath gwahanol o bapur gyda dangosydd cyffredinol.	10 mun
Crynodeb asidau	Pa ddeunyddiau asidig allai fod yn beryglus i gasgliadau'r Amgueddfa? Sut fydden nhw'n cael at y casgliadau?	5 mun
Difrod dŵr	Beth sy'n adweithio â dŵr?	